**CYPE(6)-18-22 - Papur i'w nodi 6**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

23 Medi 2022

Annwyl Jayne,

**Diweddariad ar argymhellion yr ymchwiliad iechyd meddwl amenedigol**

Rwy'n amgáu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn ymateb i'r adroddiad ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru. Rhoddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, bryd hynny, ddiweddariad sylweddol ichi ar y cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion ym mis Mawrth 2021, ac ym mis Ionawr ysgrifennais atoch yn ymateb i rai cwestiynau penodol gan y Pwyllgor bryd hynny.

Yn ein diweddariad llawn blaenorol, fe wnaethom gadarnhau ein bod yn ystyried fod argymhellion 1, 3 ac 11 wedi'u cwblhau. Yn yr un diweddariad, nodwyd ein hymatebion lefel uchel i'r rheini a wrthodwyd yn flaenorol er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwaith hwn wedi'i ystyried fel y nodwyd yn yr ymateb gwreiddiol hwnnw. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom gadarnhau na fyddem yn disgwyl i ddiweddariadau yn y dyfodol adrodd ar yr argymhellion hyn (13, 22, 23 a 24 yn benodol). Felly, nid yw'r saith argymhelliad a nodwyd wedi'u cynnwys yn y tabl diweddaraf.

Rydym yn disgwyl gwneud cynnydd ar gerrig milltir pwysig yn yr argymhellion hyn yn y misoedd i ddod, gan gynnwys derbyn yr adroddiad ar weithrediad Uned Mamau a Babanod De Cymru, cynnydd ar ddatblygu'r amserlen ar gyfer comisiynu mynediad i Uned Mamau a Babanod ar gyfer pobl sy'n byw yn y Gogledd, a chynnydd ar ddatblygu'r set ddata ar gyfer monitro parhaus. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth ar y datblygiadau hyn yn y man.

Bydd y diweddariad nesaf hefyd yn cynnwys manylion pellach ynglŷn â sut y byddwn yn cynnwys iechyd meddwl amenedigol yn y strategaeth a fydd yn olynu Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau mai un o dasgau cyntaf y rhwydwaith clinigol a reolir newydd yw cytuno ar fesuriadau perfformiad seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a'u cyhoeddi. Unwaith y bydd y rhain wedi'u datblygu, dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data cenedlaethol a lleol ar y mesurau, gyda darpariaeth gwasanaethau, gweithgarwch a gwelliannau yn cael eu monitro gan gorff cyhoeddus cysylltiedig penodol (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru) fel y gellir nodi a gweithredu mwy o liferi ar gyfer gwella.**

**Argymhelliad 4: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, unwaith y bydd y gwaith brys i bennu lefel y galw am wasanaethau uned mamau a babanod wedi'i gwblhau yn unol â chais Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, bod dulliau casglu a monitro data mwy cadarn yn cael eu cynnal ar draws y llwybr iechyd meddwl amenedigol er mwyn deall lefel barhaus yr angen a'r galw am gymorth ac i ddarparu sail dystiolaeth gadarnach ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gasglu data sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a gweithgarwch o fewn gwasanaethau amenedigol, a lefel y galw am lefydd mewn Unedau Mamau a Babanod (MBU) er mwyn monitro gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Amenedigol Cenedlaethol bellach yn blaenoriaethu casglu data er mwyn sicrhau bod data lefel uchel yn cael eu casglu ac yn briodol i'w cyhoeddi. Mewn cydweithrediad â Chydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Amenedigol (PNMH) i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu a chytuno ar Set Ddata Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi'r data.

Mae'r gofynion data iechyd meddwl amenedigol nawr wedi'u cynnwys yn fersiwn ddrafft y set ddata iechyd meddwl craidd. Mae hon wedi'i dosbarthu i'r byrddau iechyd i gynnal prawf o'i effaith ac i ddeall pa elfennau sydd eisoes yn cael eu cofnodi gan fyrddau iechyd a pha elfennau fydd angen eu hychwanegu. Mae hyn wedi bod o gymorth i adnabod unrhyw elfennau a fyddai'n anodd eu cofnodi. Mae'r adroddiad ar y prawf o'i effaith nawr wedi'i dderbyn gan Gydweithrediaeth y GIG a Llywodraeth Cymru. Mae fersiwn ddrafft y set ddata iechyd meddwl craidd yn cael ei ystyried gan Fwrdd Safonau Gwybodeg Cymru, a bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at yr holl randdeiliaid i orchymyn y gwaith hwn yn ffurfiol pan fydd wedi'i gytuno.

O ran mesurau canlyniadau ar gyfer iechyd meddwl, dechreuodd yr hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer cynnwys y defnydd o mesurau canlyniadau a phrofiadau cleifion ym mhob tîm iechyd meddwl yng Nghymru ym mis Mehefin 2021 a bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi tan fis Mawrth 2023. Mae'r gwaith o edrych ar ddangosyddion/data perfformiad a mesurau canlyniadau ar draws 10 Llwybr Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru wedi'i nodi fel blaenoriaeth yn rhaglen waith 2022-23. Mae angen cwblhau gwaith pellach i gytuno ar fesurau canlyniadau sy'n cael eu defnyddio ar draws y llwybr cyfan, ac mae angen cwblhau'r Fframwaith Mesurau Canlyniadau Iechyd Meddwl Amenedigol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud drwy'r Bwrdd Mesurau Canlyniadau a Data Iechyd Meddwl a bydd yn cael ei adrodd drwy Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (a'r ddogfen sy'n ei olynu).

**Argymhelliad 5: Bod y rhwydwaith clinigol a reolir newydd (gweler argymhelliad 1) yn rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu canllawiau i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth i gleifion, yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch sut gall cyfnod mewn uned mamau a babanod fod o fudd i famau, babanod a'u teuluoedd fel y gellir gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am opsiynau triniaeth.**

Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru wedi llunio'r canllawiau hyn; gellir cael gafael arnynt drwy'r ddolen ganlynol.

Un o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymarfer meincnodi ynglŷn â'r Safonau RCPsych yw darpariaeth gwybodaeth / taflenni cyfredol. Rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio'r cynnwys o daflenni RCPsych ac mae cynlluniau ar y gweill i'w haddasu a'u mabwysiadu ar gyfer y cyd-destun Cymreig. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y taflenni sy'n cael eu datblygu'n cynnwys gwybodaeth ar – Iechyd Meddwl mewn Beichiogrwydd, beth yw Gwasanaethau Amenedigol Arbenigol, Cynllunio Beichiogrwydd, Iselder a Gorbryder Ôl-enedigol, Iselder a Gorbryder Ôl-enedigol i Ofalwyr, OCD Amenedigol, OCD Amenedigol i Ofalwyr, Seicosis Ôl-enedigol, Gwybodaeth am Seicosis Ôl-enedigol i Ofalwyr, Uned Mamau a Babanod a Hawliau, Lles a Diogelu Babanod/Gofalwyr a'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Bydd yr holl daflenni ar gael i'w gweld ar-lein ac i'w lawr lwytho o wefan Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru. Disgwylir y bydd yr adnoddau ar gael o fis Hydref 2022. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn rhaglen waith yr Arweinydd Clinigol Amenedigol.

**Argymhelliad 6: Bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, yn sefydlu uned mamau a babanod yn ne Cymru, wedi'i chomisiynu a'i chyllido yn genedlaethol i ddarparu gwasanaethau Cymru gyfan, sydd â staff digonol o ran niferoedd a disgyblaethau, ac sy'n gweithredu fel canolfan ganolog o wybodaeth a dysgu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru.**

Rydym wedi cadarnhau eisoes bod yr Uned Mamau a Babanod (Uned Gobaith) yn y De, yn Ysbyty Tonna wedi agor ym mis Ebrill 2021. Cynhaliwyd digwyddiad cadarnhaol ym mis Mehefin hefyd a oedd yn edrych ar y llwyddiannau a'r heriau yn ystod y flwyddyn gyntaf, a fydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r camau nesaf ar gyfer yr uned. Cynhaliwyd y weminar gan NSPCC Cymru, Cynghrair Iechyd Meddwl Mamau, Uned Gobaith, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Fel y nodwyd yn argymhelliad 8, rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o'r uned wedi iddi fod ar agor am 12 mis i sicrhau y gellir ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod hwn i hysbysu ymarfer yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn y llythyr eglurhaol, rydym yn disgwyl adroddiad ar weithrediad Uned Mamau a Babanod De Cymru yn y misoedd nesaf a bydd hwn yn cael ei adrodd drwy argymhelliad 8. Felly ystyrir fod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.

**Argymhelliad - 7. Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r ffaith na fydd uned mamau a babanod sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru o reidrwydd yn addas i famau a theuluoedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru, yn ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain a allai wasanaethu poblogaethau o boptu'r ffin. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd mewn perthynas â gallu GIG Cymru i gomisiynu gwelyau mewn unedau mamau a babanod mewn canolfannau yn Lloegr lle pennir bod angen clinigol amdanynt.**

Bu cryn ymgysylltu rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a chydweithwyr yn GIG Lloegr a phenderfynwyd mai datblygu uned mamau a babanod 8 gwely ar y cyd yng Ngogledd Orllewin Lloegr gyda mynediad da o ogledd Cymru yw'r model a ffafrir i ddiwallu anghenion yng Nghymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r model hwn ymhellach ac mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cadarnhau bod y galw / capasiti presennol yn dangos yr angen i ariannu dau wely, a thrydydd gwely os oes angen. Mae hyn wedi'i gynnwys yng nghynlluniau comisiynu cyfredol Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu achos busnes, a disgwylir y byddai'r gwasanaeth yn weithredol oddeutu 18 mis ar ôl ei gymeradwyo'n derfynol. Mae swyddogion yn gweithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i ddod o hyd i unrhyw gyfleoedd i gyflymu'r amserlenni hynny pe bai'n bosibl. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r darparwr i gefnogi anghenion iaith Gymraeg ein cleifion wrth ddatblygu'r uned.

**Argymhelliad - 8. Bod Llywodraeth Cymru'n darparu cynllun gweithredu clir i sicrhau bod canolfannau sy'n darparu gwelyau mewn unedau mamau a babanod, pa le bynnag y bônt (yng Nghymru neu yn Lloegr) wedi'u hintegreiddio'n agos â thimau iechyd meddwl amenedigol cymunedol arbenigol a'u bod yn cael eu rheoli, eu cydgysylltu a'u hariannu ar sail genedlaethol, Cymru gyfan i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod mynediad teg iddynt, yn enwedig gan fod eu hangen ar frys mewn sefyllfaoedd argyfwng yn aml.**

Rydym wedi ymrwymo'n flaenorol i gynnal adolygiad o Uned Mamau a Babanod De Cymru wedi iddi fod ar agor am 12 mis, er mwyn sicrhau y gellir ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd o'r cyfnod hwn i hysbysu arferion yn y dyfodol. Fel rhan o'r broses hon, estynnwyd gwahoddiad i'r holl dimau arbenigol yng Nghymru i ddod i sesiwn fyfyrio gyda chydweithwyr yr Uned Mamau a Babanod. Estynnwyd gwahoddiad agored i aelodau'r tîm nad oeddent yn gallu bod yn bresennol, neu'r rheini a oedd angen mwy o amser i ystyried y llynedd, i roi adborth ar eu profiadau o'r hyn a weithiodd yn dda ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i gydweithwyr yn yr Uned Mamau a Babanod gwrdd yn rheolaidd gyda'r holl gydweithwyr yn y tîm arbenigol. Bydd yr hyn a ddysgwyd o Uned Mamau a Babanod De Cymru hefyd yn cael ei ddefnyddio wrth inni ddatblygu darpariaeth ar gyfer y rheini sy'n byw yn y Canolbarth ac yn y Gogledd.

**Argymhelliad - 9. Ar sail dadl "buddsoddi er mwyn arbed" ac yn dilyn dadansoddiad o'r gwerthusiad o wasanaethau sydd ar droed, a chanlyniadau ymchwil Mind-NSPCC-y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, bod Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol i'r Byrddau Iechyd er mwyn gallu mynd i'r afael ag amrywiadau yn well fel bod modd datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd trwy ehangu'r timau presennol. Er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn cyrraedd yr un safon â'r gorau, dylai'r dull a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ychwanegol anelu'n bennaf at yr angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn darpariaeth rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru**

Mae'r holl fyrddau iechyd nawr wedi cofrestru gyda'r Rhwydwaith Ansawdd Amenedigol (PQN). Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod timau'n gweithio'n gyson, ac i gael sicrwydd bod gwasanaethau o'r safon briodol.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd yr holl fyrddau iechyd yn paratoi ac yn cymryd rhan yn eu hadolygiadau Rhwydwaith Ansawdd Amenedigol nesaf. Bydd yr adroddiadau a geir yn dilyn yr adolygiad yn tynnu sylw at y cryfderau ac yn rhoi cyngor ar unrhyw heriau sy'n wynebu'r timau.

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda'r arweinwyr timau arbenigol yn y byrddau iechyd i gefnogi a sicrhau ffocws cryf ar weithredu'r safonau cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys adnabod bylchau a chamau gweithredu i'w cymryd i gyflawni'r safonau, rhannu arferion da a'r hyn a ddysgwyd, a dull cydweithredol, seiliedig ar atebion o ymdrin ag unrhyw heriau a nodwyd. Bydd y cyfan yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Iechyd Meddwl Amenedigol**.**

Fel rhan o'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i fyrddau iechyd drwy gyllid gwella gwasanaeth a ddyrennir o'r flwyddyn hon, rydym wedi parhau i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn flaenoriaeth. Nododd Llywodraeth Cymru yn amodau'r cyllid y dylai'r ceisiadau adlewyrchu'r gofynion staffio yn Safonau Cymunedol Amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (Math 1-3). Disgwylir y bydd y timau yn;

• Bodloni'r holl safonau math 1 (erbyn mis Mawrth 2023).
• Bodloni 80% o safonau math 2 a 60% o safonau math 3 (erbyn mis Mawrth 2024).

Gwnaethom gadarnhau hefyd, yn unol ag Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd Meddwl Amenedigol y Senedd, ein bod yn disgwyl gweld bod bydwraig iechyd meddwl amenedigol arbenigol ym mhob bwrdd iechyd.

Fel rhan o'r cyllid ychwanegol, roedd disgwyliad hyd yn oed pe na bai cynigion yn cael eu cyflwyno ar gyfer iechyd meddwl amenedigol, y dylid cadw at y safonau a nodwyd uchod. Yn yr adroddiad diweddaraf, nodwyd mai tri bwrdd iechyd sy'n bodloni safonau staffio math 1 yn llawn ar hyn o bryd. Mae 3 bwrdd iechyd wedi sefydlu swyddi priodol ond ar hyn o bryd, nid oes ganddynt y staff cyfwerth ag amser llawn gofynnol. Mae un bwrdd iechyd yn dal i weithio tuag at roi'r holl swyddi ar waith erbyn mis Mawrth 2023. Mae £500,000 yn ychwanegol o gyllid rheolaidd nawr wedi'i glustnodi drwy'r broses hon ar gyfer darpariaeth gymunedol iechyd meddwl amenedigol, sy'n cyfrannu at y buddsoddiad rheolaidd blaenorol.

**Argymhelliad - 10. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) yn cael ei flaenoriaethu o ystyried y cysylltiad sydd wedi'i sefydlu rhwng salwch amenedigol ac iechyd a datblygiad plentyn. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod menywod beichiog a menywod sydd newydd roi genedigaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gallu cael therapïau siarad neu wasanaethau seicolegol (ar lefel gofal sylfaenol ac eilaidd) yn gyflym ac amserol, gydag amseroedd aros yn cael eu monitro a'u cyhoeddi. Gofynnwn am ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â gwella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch yr angen i adolygu a chytuno ar y model o gefnogaeth seicolegol sy'n cael ei gynnig i rieni a theuluoedd mewn unedau newyddenedigol ar draws Cymru. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol 2022-23.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gwelliant Cymru i barhau i ddatblygu'r seilwaith i gefnogi byrddau iechyd i wella mynediad at therapïau seicolegol. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod gennym broses gadarn i ystyried sylfaen dystiolaeth yr ymyriadau sy'n sail i Fatrics Cymru a'r Matrics Plant.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi data ar amseroedd aros ar gyfer therapïau seicolegol arbenigol, ond bu oedi gyda'r gwaith hwn yn ystod y pandemig. Er nad yw'r data'n ddigon cadarn i'w gyhoeddi eto, bydd pob bwrdd iechyd yn adrodd am ddata gweithredol, a bydd y data yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ddwyn gwasanaethau i gyfrif. Mae'r data ar amseroedd aros a fydd yn cael eu cyhoeddi'n adlewyrchu un elfen yn unig o'r mynediad at therapïau seicolegol – y gwasanaethau arbenigol. Mae data eisoes wedi'u cyhoeddi ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, sy'n cynnwys therapïau seicolegol ac rydym wedi cryfhau'r gefnogaeth lefel isel, er enghraifft drwy gyflwyno Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ar-lein (Silvercloud) – math arall o therapi seicolegol. Mae cynllun peilot o'r Rhaglen Silver Cloud ar gyfer Iechyd a Llesiant Amenedigol hefyd wedi dechrau ym Mhowys yn ddiweddar. Er mwyn cael dealltwriaeth fanwl gywir o weithgarwch a rhestrau aros, mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi comisiynu Uned Gyflawni'r GIG i gynnal adolygiad o ddarpariaeth Therapïau Seicolegol ar draws Cymru.

Yn 2021, fe wnaeth y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod gydnabod fod cyfle i greu partneriaeth gyda'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol. Ymhlith y 107 o argymhellion yn y Rhaglen Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod, roedd 6 cyfeiriad penodol at iechyd meddwl a llesiant yn yr argymhellion ar gyfer menywod a dynion yn ystod y cyfnod amenedigol.

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol wedi bod yn arwain prosiect i gefnogi menywod a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod amenedigol. Bydd y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol yn datblygu ac yn creu adnoddau ar y cyd, sy'n benodol i Gymru er mwyn annog trafodaeth am lesiant amenedigol yn y cartref ac mewn amgylcheddau clinigol, ar gyfer teuluoedd a'u cefnogwyr. Mae'r prosiect wedi estyn allan at bobl ar draws Cymru i gasglu barn, profiadau a chlywed straeon pobl yn ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol, a llesiant yn ystod y cyfnod amenedigol. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl; pobl sy'n ystyried mynd yn feichiog, sy'n feichiog ar hyn o bryd neu sydd wedi bod yn feichiog, a'u cefnogwyr; boed yn ŵr, gwraig, partner, rhiant neu frawd neu chwaer – a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y prosiect yn dadansoddi'r holl ganfyddiadau i roi dealltwriaeth o'r hyn a fydd yn arwain at frandio a chreu'r adnoddau, i greu grwpiau ffocws gydag aelodau o'r gymuned ar draws Cymru.

Yn ogystal â’r prosiect hwn, mae gwaith sylweddol wedi’i arwain gan y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol i adolygu ac ailgynllunio’r llwybrau ar draws Iechyd Meddwl Amenedigol, gyda rhanddeiliaid partner, sefydliadau trydydd sector ac aelodau o’r gymuned.

**Argymhelliad - 12. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y llwybr gofal clinigol Cymru gyfan newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn gofyn am gysondeb o ran canlyniadau (gan gynnwys cyfnodau atgyfeirio ac amseroedd aros) ond yn galluogi Byrddau Iechyd i gadw lefel yr hyblygrwydd sydd ei angen o ran dulliau cyflwyno er mwyn rheoli a diwallu anghenion lleol. Dylai datblygu a gweithredu llwybr gofal clinigol Cymru gyfan integredig sy’n seiliedig ar dystiolaeth o fewn y 12 mis nesaf (gyda rhai gwasanaethau lleol) fod yn flaenoriaeth. Dylai’r llwybr helpu i ddarparu gwasanaethau integredig a chymell ymyrraeth gynnar ac ymagweddau cyfannol tuag at ofal a gwella.**

Rhannwyd 10 Llwybr Gofal Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru, y rhaglen ac animeiddiad ym mis Mehefin yng Nghymuned Ymarfer Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru. Mae’r llwybrau wedi’u rhannu gyda chydweithwyr i ddechrau i roi’r cyfle iddynt ddod yn gyfarwydd â nhw a ‘phrofi’r newid’ am gyfnod o 6 mis. Datblygwyd ffurflen werthuso i alluogi cydweithwyr ar draws Cymru i roi adborth, gan wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn lansio’n fwy ffurfiol ar ddechrau 2023. Mae’r gwaith o godi ymwybyddiaeth a phrofi’r llwybrau yn cael ei gefnogi gan yr Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl Amenedigol.

Datblygwyd canllaw adnoddau clinigol hefyd i gefnogi sefydlu’r model ASK, ASSESS ac ACT ac mae’r canllaw hwn wrthi’n cael ei gyfieithu i’r Gymraeg cyn cael ei rannu gyda thimau bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd a gofal sylfaenol.

Mae gwaith pellach ar y gweill i ganfod y data angenrheidiol i ddangos y gwahaniaeth y bydd y llwybrau hyn yn eu gwneud. Bydd hyn yn sicrhau bod y gofal iawn yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn, gan y bobl iawn, a bydd yn cynnwys adnabod a chytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol, offerynnau mesur canlyniadau, llwybrau eilaidd/cangen, codi ymwybyddiaeth ac unrhyw hyfforddiant pellach sydd ei angen. Tynnwyd sylw at y gwaith hwn ac mae wedi’i gynnwys yng nghynllun cyflawni 2022-23.

Mae’r llwybrau, y rhaglen a’r animeiddiad ar gael ar wefan Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru - Rhaglen a Llwybrau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru - Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru

**Argymhelliad - 14. Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwybodaeth a ddarperir mewn pecynnau cynenedigol ac ôl-enedigol safonol i fenywod yng Nghymru i sicrhau ei bod yn cynnwys y manylion angenrheidiol am les emosiynol, iechyd meddwl amenedigol a lle i ofyn am help a chymorth.**

Mae cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi’n adolygu ac yn diweddaru’r adnodd Naw Mis a Mwy ac yn cynllunio eu camau nesaf ar gyfer darparu’r adnodd beichiogrwydd a genedigaeth newydd. Maent wrthi’n rhannu gydag aelodau’r grŵp sicrwydd ansawdd a’r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol i sicrhau bod yr adborth a roddwyd eisoes yn dal i adlewyrchu’r canllawiau ac arferion gorau. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cynnal ymarfer cwmpasu ar gyfer Mamolaeth Ddigidol Cymru, yn ymwneud â datblygu system wybodaeth mamolaeth i Gymru a fydd yn rhoi mynediad i fenywod at eu nodiadau a gwybodaeth iechyd y cyhoedd. Rydym yn aros am gadarnhad ar hyn o bryd er mwyn symud i’r cam rhaglen.

**Argymhelliad - 15. Bod Llywodraeth Cymru yn dylunio fframwaith cenedlaethol ar gyfer dosbarthiadau cynenedigol, yn ei ddarparu i bob Bwrdd Iechyd a’i gwneud hi’n ofynnol iddynt wneud mwy i annog presenoldeb mewn dosbarthiadau. Dylai’r fframwaith gynnwys sgyrsiau am les emosiynol a realiti rhianta er mwyn chwalu’r stigma sylweddol a niweidiol ynghylch salwch meddwl amenedigol.**

Ym mis Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Weledigaeth ar gyfer y Strategaeth gwasanaethau mamolaeth (2019 i 2024). Mae'r Weledigaeth hon yn ganlyniad i ddod â llawer o bobl ynghyd i adnewyddu ein model o ofal mamolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol sydd ar gael, yr arfer gorau a’r adborth gan deuluoedd a staff rheng flaen i ddylunio a gwella gwasanaethau presennol ymhellach.

Cadarnhawyd yn y Weledigaeth y bydd byrddau iechyd yn gweithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau iechyd cyhoeddus lleol i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys menywod mewn nifer o feysydd megis gwella iechyd a llesiant rhieni a babanod, gan gynnwys eu hiechyd meddwl. Bydd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwnsela cyn beichiogrwydd (lle bo'n briodol).

Arweinir ffrydiau gwaith gan y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol i ddeall statws presennol y ddarpariaeth ym mhob bwrdd iechyd a datblygu modelau darpariaeth mewn gwahanol fformatau (rhithwir ac wyneb yn wyneb). Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol fel rhanddeiliaid allweddol i lywio datblygiad y ddarpariaeth. Mae’r gwaith hwn yn hysbysu gwaith parhaus y byrddau iechyd o ran datblygu deunyddiau ar-lein ac wyneb yn wyneb sy’n hygyrch i fenywod. Bydd y gwaith hwn yn elfen allweddol yn y model Mamolaeth Ddigidol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o’r Weledigaeth fel rhan o’r rhaglen cefnogi diogelwch mewn gofal mamolaeth a newyddenedigol sydd wedi dechrau elfen ddiagnostig cam 1 gyda Gwelliant Cymru i adnabod y materion allweddol sy’n cael effaith ar ddiogelwch a chanlyniadau positif i deuluoedd.

**Argymhelliad - 16. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol i sicrhau bod iechyd meddwl amenedigol yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant cyn-gofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yr holl weithwyr iechyd proffesiynol a chlinigwyr sy'n debygol o ddod ar draws menywod amenedigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sylw i iechyd meddwl amenedigol fel pwnc ar ei ben ei hun ym maes bydwreigiaeth ac addysg ymwelwyr iechyd yn cael ei wella ac yn rhan o'r rhaglen nyrsio iechyd meddwl cyn cofrestru. Mae angen i gwricwlwm craidd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hyfforddiant ymarfer cyffredinol baratoi meddygon teulu yn well i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl amenedigol hefyd.**

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Amenedigol wedi cytuno y bydd y Fframwaith Cymhwysedd Albanaidd, y Cynllun Hyfforddiant a'r modiwlau ar-lein yn cael eu defnyddio yng Nghymru. Ar ôl cael cytundeb Addysg GIG yr Alban mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi ar gyfer y saith modiwl lefel cyflwyniad gan Addysg GIG yr Alban er mwyn eu cynnwys ar blatfform 'Dysgu@Cymru'. Mae gwaith ar y gweill i addasu'r cyfan ar gyfer y cyd-destun Cymreig, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith hwn a sicrhau ei fod yn barod ar gyfer cyfnod profi o 6 mis gyda'r timau iechyd meddwl amenedigol arbenigol yn ystod hydref 2022.

Pan fydd y modiwlau'n barod, bydd cyfnod o 'brofi'r newid' am 6 mis, gan wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol, gyda'r bwriad o'u rhannu'n ffurfiol ar draws Cymru ar ddechrau 2023.

Mae gwaith ymgysylltu'n parhau i wella'r niferoedd sy'n manteisio ar becyn modiwlau hyfforddi'r Sefydliad Ymwelwyr Iechyd i sicrhau bod pob cydweithiwr yn cael cyfle i wneud yr hyfforddiant iechyd meddwl amenedigol a babanod priodol. Mae'r hyfforddiant hwn hefyd wedi'i adlewyrchu yn rhaglen hyfforddiant iechyd meddwl amenedigol newydd Cymru.

Mae Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru, gyda mewnbwn Meddygon Teulu, yn parhau i edrych ar sut i ddarparu hyfforddiant ac addysg i gefnogi meddygon teulu i ofalu am gleifion gydag anawsterau iechyd meddwl amenedigol. Cynhaliwyd arolwg byr i helpu i adnabod anghenion hyfforddiant a dewisiadau ar gyfer meddygon teulu. Mae cydweithwyr wedi dechrau llunio cynnwys yr hyfforddiant ac mae gwaith ar y gweill gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a GIG Lloegr i edrych ar gyflwyno model Hyrwyddwr Meddygon Teulu ar draws Cymru.

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol hefyd wedi cwrdd â'r Bydwragedd Arweiniol Addysg i feddwl mwy am sut y cynigir hyfforddiant i fyfyrwyr cyn cofrestru ac mae hyrwyddwyr iechyd meddwl amenedigol wedi cysylltu â phrifysgolion ac yn rhoi diweddariad, gwybodaeth a hyfforddiant pan fo angen. Mae cynlluniau nawr ar y gweill i gynnal gwaith cwmpasu sy'n ein cefnogi i gael dealltwriaeth glir o bwy sy'n cysylltu â pha brifysgolion a beth sy'n cael ei gynnig. Bydd hyn yn galluogi'r rhwydwaith i feddwl am beth fydd y cynllun Cymru gyfan i sicrhau dull cyson o ran addysg cyn cofrestru ar gyfer iechyd meddwl amenedigol.

**Argymhelliad - 17. Bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu a chyflwyno strategaeth ar gyfer y gweithlu/fframwaith cymhwysedd er mwyn meithrin capasiti a chymhwysedd ar draws y gweithlu arbenigol, gan edrych ar brofiad yn Rhwydweithiau Clinigol a Reolir Lloegr a'r Alban sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am hyfforddiant fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth a chydlynu.**

Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu cynllun gweithlu iechyd meddwl, sy'n cynnwys y GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynllun drafft rhwng 1 Chwefror a 28 Mawrth 2022. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru nawr wedi darparu cynllun wedi'i gostio i Lywodraeth Cymru ei ystyried yn ffurfiol. Rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi'n ffurfiol yn yr hydref. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn datblygu cynllun gweithredu manylach yn ogystal â sefydlu nifer o grwpiau llywio a ffrydiau gwaith yn dilyn lansiad y cynllun, i oruchwylio a chefnogi ei ddarpariaeth. Yn ogystal â hyn, maent hefyd wedi gwneud gwaith penodol yn ymwneud â'r cyfnod amenedigol, fel y nodwyd yn y diweddariad blaenorol.

**Argymhelliad - 18. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd fydwraig sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl amenedigol er mwyn annog cyfathrebu gwell rhwng gweithwyr proffesiynol fel y gall menywod sy'n sâl gael y gofal a'r cymorth gorau sydd eu hangen arnynt.**

Mae'r holl fyrddau iechyd nawr wedi sefydlu cyllid a swyddi Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol. Mae gan yr holl fyrddau iechyd nawr fydwragedd sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl amenedigol. Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn hwyluso fforwm bydwreigiaeth iechyd meddwl amenedigol arbenigol sy'n rhoi cyfle i gydweithwyr bydwreigiaeth sy'n gweithio mewn swyddi iechyd meddwl amenedigol arbenigol i ddod ynghyd a myfyrio, dysgu, rhannu arferion gorau, ac adnabod heriau ac atebion.

Rydym nawr o'r farn bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei fonitro fel rhan o'r trefniadau 'busnes fel arfer'.

**Argymhelliad - 19. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae pob menyw yn cael perthynas barhaus gyda naill ai bydwraig neu ymwelydd iechyd. Er na fydd hi'n bosibl cyfarfod â'r un unigolyn ar bob achlysur, dylai pob Bwrdd Iechyd fynd ati i glustnodi adnoddau er mwyn ceisio sicrhau parhad gofal, gydag arweinydd a enwir yn gyfrifol am ofal ôl-enedigol pob menyw.**

Cyhoeddwyd 'Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Elfennau craidd y Weledigaeth yw parhad gofal ac iechyd amenedigol. Mae ffrydiau gwaith dan arweiniad y rhwydwaith mamolaeth a newyddenedigol yn datblygu gwaith i wella'r gwasanaethau a ddarperir i fenywod a theuluoedd ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o'r adnodd aciwtedd *Birthrate plus* sy'n tynnu at ei derfyn a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2022 gan fodelu gofynion staffio yn y dyfodol i gyflawni'r Weledigaeth yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2022 lansiodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol a fydd yn adolygu pob agwedd ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod y cam darganfod gan gynnwys cymorth amenedigol a bydwreigiaeth. Dan arweiniad Gwelliant Cymru, bydd yn darparu argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn darpariaeth yn y dyfodol. Bydd datblygu Mamolaeth Ddigidol Cymru yn darparu data ar bob agwedd o ofal gan gynnwys parhad gofal.

O ran ymwelwyr iechyd, rydym yn parhau â'r ymrwymiad yn y strategaeth genedlaethol i "greu system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth ei wraidd", mae gwaith wedi parhau drwy gydol y pandemig ar y rhaglen waith i archwilio sut rydym yn creu system blynyddoedd cynnar, yn lleol ac yn genedlaethol, gan weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar brosiectau braenaru ac yn fwy diweddar wedi ehangu Dechrau'n Deg fesul cam. Ein nod yw datblygu dull unigol wedi'i gydlynu ar gyfer y blynyddoedd cynnar, a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar y cyd ac yn fwy integredig. Mae'r rhaglen waith hon wedi tanlinellu rôl allweddol y gwasanaeth ymwelwyr iechyd wrth gefnogi teuluoedd, yn enwedig wrth adnabod y rheini sydd angen cymorth ychwanegol. Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn mae'r gwaith o ddatblygu adnodd aciwtedd gweithlu ar gyfer ymwelwyr iechyd er mwyn pennu lefelau llwyth achosion priodol a gofynion cysylltiedig y gweithlu yn unol ag anghenion teuluoedd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac yn cefnogi asesiad o anghenion gweithlu'r dyfodol.

Yn ystod y pandemig mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd (Dechrau'n Deg a gwasanaethau cyffredinol) wedi gweithio gyda'i gilydd i gyhoeddi canllawiau rheolaidd sy'n nodi'n glir beth oedd y disgwyliadau o ran darpariaeth y rhaglen, gan bwysleisio y dylid cynnal cysylltiadau craidd penodol os nodwyd fod teuluoedd angen mwy o gymorth, neu lle roedd pryderon diogelu.

**Argymhelliad - 20. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod lefelau priodol o ddarpariaeth y trydydd sector yn cael eu hariannu'n briodol, yn enwedig lle gwneir atgyfeiriadau gan ac i wasanaethau statudol. Dylid creu cyfeiriadur o wasanaethau'r trydydd sector i gynyddu ymwybyddiaeth eu bod ar gael a dylai darparwyr perthnasol yn y trydydd sector gael eu gwahodd fel mater o drefn i fynychu hyfforddiant ar y cyd â gwasanaethau statudol.**

Mae'r rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol yn parhau i ddarparu sesiynau coffi a sgwrs i'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol, gydag aelodau newydd yn cael eu canfod a'u gwahodd yn rheolaidd. I gryfhau lleisiau defnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd ac i sicrhau bod lleisiau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynrychioli ar draws Rhwydwaith Clinigol Amenedigol Cymru ac oddi mewn iddo, mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn gweithio mewn cydweithrediad â Rhwydwaith Hyrwyddwyr Cynghrair Iechyd Meddwl Mamau (MMHA) i gynyddu nifer yr Hyrwyddwyr yng Nghymru. Anogwyd pob bydwraig sy'n arbenigo mewn Iechyd Meddwl Amenedigol i gysylltu â'u Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth a chydweithwyr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried anghenion darpariaeth trydydd sector i rieni gydag anawsterau iechyd meddwl ysgafn i ganolig. Mae ymarfer cwmpasu ar y gweill i ddeall ymhellach pa wasanaethau cymunedol sydd ar gael ar gyfer y lefel hon o anghenion.

O ganfyddiadau cynnar gwaith mapio'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol (NCCU) mewn gofal sylfaenol (rhan o'r Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol) a'r dadansoddiad data gan SilverCloud a CALL, rydym yn ymwybodol bod y galw ar gyfer haen 0/1 yn parhau i gynyddu, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd ag anawsterau cysylltiedig â gorbryder ac iselder a materion iechyd meddwl cyffredin eraill.

Rydym felly wedi cryfhau ein trefniadau i gefnogi darpariaeth y sector gwirfoddol ac o fis Hydref bydd y trefniadau a ganlyn yn berthnasol
- Bydd gennym gyllideb ganolog i gomisiynu cefnogaeth genedlaethol, Cymru gyfan, yn seiliedig ar anghenion a thystiolaeth i lenwi'r bylchau mewn darpariaeth.
- Mwy o gyllid i fyrddau iechyd yn benodol ar gyfer cymorth iechyd meddwl a ddarperir gan y trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer cymorth haen 0/1 a chymorth mewn gofal sylfaenol.
- Darparu mwy o fuddsoddiad a buddsoddiad rheolaidd ar gyfer gwaith sy'n flaenoriaeth i fyrddau iechyd mewn partneriaeth â'r trydydd sector, er enghraifft dewisiadau eraill yn hytrach na derbyn i'r ysbyty, gan gynnwys llochesau.
- Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cynllun grantiau bychan ar gyfer gwaith atal hunanladdiad a hunan niwed. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan y Cydlynydd Atal Hunanladdiad a Hunan niwed Cenedlaethol a bydd rhagor o fanylion yn dilyn yn fuan.

Bydd cyfleoedd cyllid cenedlaethol yn cael eu hysbysebu'n eang i alluogi i sefydliadau sy'n dymuno cofrestru eu diddordeb i wneud hynny, a rhoi digon o rybudd i alluogi i sefydliadau llai gymryd rhan.

Fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, er mwyn darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy, o safon uchel, rydym yn datblygu fframwaith Cymru Gyfan i gefnogi camau gweithredu lleol i brif-ffrydio rhagnodi cymdeithasol. Bydd y fframwaith yn amlinellu beth yw arfer gorau o ran y model rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru, ond ni fydd yn gorchymyn sut y dylid ei ddarparu mewn gwahanol gymunedau. Rydym yn ceisio deall beth all y fframwaith ei wneud i ychwanegu gwerth i ragnodi cymdeithasol yng Nghymru ac adnabod pa waith y gallwn ni ei wneud yn Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithgarwch unwaith-i-Gymru, er enghraifft gall hyn gynnwys defnyddio technoleg i gefnogi. Mae cyd-gynhyrchu'r fframwaith hefyd yn allweddol wrth ddatblygu'r model i sicrhau bod datrysiadau'n cael eu datblygu yn rhanbarthol a gwneud yn siŵr bod yr hyn sy'n cael ei ddatblygu'n addas at y diben ac nad yw'n ehangu anghydraddoldebau iechyd yn anfwriadol.

**Argymhelliad - 21. Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cymorth seicolegol ar gyfer rhieni babanod newyddenedigol neu rieni sy'n mynd trwy brofedigaeth a bodloni'r safonau, a pha gamau y bydd yn eu cymryd os na sicrheir cydymffurfiaeth â'r safonau. Dylid cyhoeddi'r trydydd rhifyn o'r safonau newyddenedigol fel mater o flaenoriaeth.**

Mae'r Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan yn amlinellu'r gofynion ar gyfer darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ddiogel ac yn effeithiol. Maent wedi'u cynllunio i ddarparu fframwaith ar gyfer unedau i asesu darpariaeth gwasanaethau o ansawdd ar lefel leol a hefyd i feincnodi ar draws unedau eraill yng Nghymru. Cyhoeddwyd 3ydd rhifyn y safonau yn 2018.

Yn 2019 datblygodd Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru ddangosyddion ansawdd adolygiad cymheiriaid newyddenedigol a oedd yn dilyn y chwe maes ansawdd gofal iechyd. Cawsant eu datblygu gan ddefnyddio 3ydd Rhifyn Safonau Newyddenedigol Cymru; Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth Newyddenedigol Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM) 2017; Siarter Babanod Bliss, Pecyn Cymorth Gwasanaethau Newyddenedigol o Ansawdd Uchel 2009 a Dangosyddion Ansawdd Gofal Critigol Newyddenedigol, Tîm Gwyliadwriaeth Ansawdd (GIG Lloegr). Mae set gyfredol o Ddangosyddion Ansawdd yn cael ei datblygu a fydd yn cyfuno'r dogfennau hyn mewn dogfen arferion gorau.

Mae'r Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol yn cael ei gadeirio gan Dr Idris Baker, yr arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector sy'n rhoi cymorth profedigaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion, y rheini sydd wedi colli babanod, wedi colli rhywun yn sydyn, wedi colli rhywun i hunanladdiad a phob math o brofedigaeth. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gofal mewn Profedigaeth yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 yn nodi sut y gallwn ni yng Nghymru ymateb i'r rheini sy'n wynebu, neu sydd wedi cael profedigaeth. Mae'r fframwaith yn cynnwys egwyddorion craidd, isafswm safonau gofal mewn profedigaeth ac ystod o gamau gweithredu i gefnogi gwaith cynllunio rhanbarthol a lleol. Mae hefyd yn cynnwys adran ar ddysgu o COVID-19 a'r trallod a deimlwyd gan lawer o bobl a gollodd anwyliaid yn ystod y pandemig. Mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol am gomisiynu a darparu cymorth mewn profedigaeth, yn ogystal â chymorth ar gyfer pobl sydd wedi'u cael profedigaeth eu hunain.

Rydym wedi buddsoddi yn helaeth mewn gwasanaethau profedigaeth yn ystod y pandemig ac wedi hynny, ac wedi trefnu nifer o weithgareddau i wella gofal mewn profedigaeth ar draws Cymru. Mae Grant Cymorth Profedigaeth gwerth £3m ar gyfer sefydliadau trydydd sector yn cael ei ddarparu dros y cyfnod o dair blynedd 2021-24 gyda 21 o sefydliadau yn cael cyllid, gan gynnwys sefydliadau fel 2 Wish, Sands a Bliss sy'n gweithio'n galed yn ddyddiol i gefnogi teuluoedd sy'n dioddef tor calon colli babi, plentyn neu berson ifanc. Mae £420k ychwanegol (£60k yr un) hefyd ar gael i fyrddau iechyd lleol yn 2022-23 a 2023-24 i helpu gyda chydlynu profedigaethau ac rydym nawr yn gweithio'n agos gydag arweinwyr profedigaeth a enwyd ym mhob bwrdd iechyd lleol.

Fel rhan o'n gwaith i weithredu'r fframwaith, rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol a nifer o bartneriaid i ddatblygu llwybr profedigaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru. Bydd y llwybrau hyn yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau i fyrddau iechyd lleol a phawb sy'n rhan o'r ddarpariaeth cymorth profedigaeth, i hyrwyddo dull cyson o gael mynediad at gymorth profedigaeth ar draws Cymru. Rydym wedi datblygu llwybr cyffredin ac mae'r cyntaf o'n llwybrau penodol yn ymwneud â marwolaeth sydyn neu drawmatig ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y llwybr nesaf sy'n cael ei ddatblygu yn ymwneud â beichiogrwydd a cholli babi. Dylai hyn sicrhau bod unrhyw un sy'n cael profedigaeth, yn lle bynnag a phryd bynnag y bydd yn digwydd, yn cael gwybodaeth am sut i gael rhagor o gymorth os byddant ei angen, boed hynny'n gymorth ymarferol, ariannol neu emosiynol. Pan fydd y llwybrau hyn wedi'u rhoi ar waith, bydd ystod o safonau gofal mewn profedigaeth yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro.

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol wedi annog cydweithwyr yn y timau iechyd meddwl amenedigol arbenigol i feithrin cysylltiadau â bydwragedd profedigaeth a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar draws byrddau iechyd a chyfarfod/cysylltu â chydweithwyr sy'n arwain y gwaith o ddatblygu llwybrau profedigaeth cenedlaethol.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud drwy'r ddarpariaeth llwybr profedigaeth a datblygu ffrydiau gwaith therapïau seicolegol ymhellach ac felly ystyrir bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.

**Argymhelliad - 25. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr holl waith o gynllunio'r gweithlu ar gyfer darparu gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol yn ystyried anghenion Cymraeg y boblogaeth ac yn darparu ar eu cyfer.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, yn enwedig ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed, ac mewn gwasanaethau allweddol fel iechyd meddwl. *Mwy na Geiriau* yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau darpariaeth iaith Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyhoeddwyd cynllun newydd *Mwy na geiriau* 2022-27 ar 2 Awst 2022. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i gael gofal yn eu hiaith gyntaf. Yn ôl ein hymchwil, i lawer o siaradwyr Cymraeg mae gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg wedi gwella eu profiadau yn gyffredinol ac, mewn llawer o achosion, wedi gwella eu canlyniadau iechyd a llesiant.

Wrth galon y strategaeth mae egwyddor y Cynnig Rhagweithiol. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth i ofyn amdanynt. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu gan grŵp arbenigol, yn dilyn gwerthusiad annibynnol o'r cynllun pum mlynedd *Mwy na geiriau* cyntaf. Mae gweithredu'r cynllun *mwy na geiriau* newydd yn gyfrifoldeb ar bawb yn eu meysydd perthnasol. Bydd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn cael ei fonitro gan fwrdd ymgynghorol newydd.

Mae darpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg hefyd yn thema yng nghynllun gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru / Gofal Cymdeithasol Cymru y cyfeirir ato uchod. Gan fod yr argymhelliad hwn yn cael ei weithredu fel 'busnes fel arfer', rydym nawr o'r farn bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.

**Argymhelliad - 26 Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Iechyd adrodd ar i ba raddau y mae eu timau iechyd meddwl amenedigol yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill ac yn gweithio ar y cyd â nhw – gwasanaethau fel CAMHS, Unedau Dibyniaeth Cymunedol a thimau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac eilaidd**

Mae hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r llwybr Iechyd Meddwl Amenedigol a amlinellir yn argymhelliad 12. Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu a wnaethpwyd yng nghyswllt y gwaith hwn tynnwyd sylw at feysydd angen ychwanegol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n cefnogi unigolion mewn meysydd gan gynnwys anableddau dysgu/niwroamrywiaeth/CAMHS/camddefnyddio alcohol a sylweddau/gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn gallu rhoi llwybrau ar waith i sicrhau mynediad teg ledled Cymru.

Mae'r NCL wedi hwyluso datblygiad llwybrau rhwng gwasanaethau Anhwylderau Bwyta a CAMHS. Mae angen gwneud gwaith pellach i wneud yr un fath ar gyfer gwasanaethau eraill, e.e. Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Timau Triniaeth yn y Cartref i Ddatrys Argyfwng a Chyswllt Seiciatrig. Cynhaliwyd cysylltiadau a thrafodaethau diweddar hefyd gydag Arweinwyr Polisi Defnyddio Sylweddau, CASCADE a Rhwydwaith Iechyd Meddwl Rhieni-Babanod Cymru.

**Argymhelliad - 27 Bod Llywodraeth Cymru'n gwneud rhagor o waith ar y cysylltiad rhwng anghydraddoldebau iechyd ac iechyd meddwl amenedigol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y mecanweithiau gorau ar gyfer canfod problemau'n gynnar a thrin y poblogaethau hynny sydd â'r angen mwyaf.**

Mae'r Bwrdd Cyflawni a Goruchwylio Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i Gymru yn parhau i ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf yn ei waith. Bydd Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru o Fenter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru yn darparu offeryn arall i gynorthwyo'r Bwrdd yn ei waith ar anghydraddoldebau iechyd. Mae'r Platfform yn borth amlddisgyblaethol traws-sector ar-lein a fydd yn dod ag arbenigedd, tystiolaeth, barn rhanddeiliaid, arfer da, offerynnau a dulliau cynaliadwy ynghyd, gan hysbysu datrysiadau a chyflymu camau gweithredu i helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd a llesiant. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i hysbysu ein strategaeth iechyd meddwl newydd. Rydym hefyd yn cydnabod bod ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl yn parhau ac y bydd hefyd yn hysbysu unrhyw gamau yn y dyfodol.

Rydym nawr o'r farn bod yr argymhelliad hwn wedi'i gwblhau.